WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cynllunio Arbedion – **Cyngor Sir Ynys Môn**

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 688A2016

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Sian Clark, Nick Raynor a Jeremy Evans, o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys

Er bod gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol sy'n gwella, ceir cynlluniau arbedion sydd heb ddatblygu digon, ac mae'n bosibl na fyddant yn cefnogi cydnerthedd ariannol yn llawn yn y dyfodol.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 6

Adroddiad manwl

Er bod gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol sy'n gwella, ceir cynlluniau arbedion sydd heb ddatblygu digon, ac mae'n bosibl na fyddant yn cefnogi cydnerthedd ariannol yn llawn yn y dyfodol 7

Cyd-destun 7

Arbedion a gyflawnwyd yn 2015-16 9

Mae'r Cyngor wedi nodi ei fod wedi cyflawni 82% o'i arbedion arfaethedig ar gyfer 2015-16 yn ystod y flwyddyn a gall ddangos bod arbedion unigol wedi cael eu cyflawni 9

Trefniadau cynllunio ariannol 10

Mae'r Cyngor yn parhau i atgyfnerthu ei fframwaith cynllunio ariannol ond ni cheir cysylltiadau digonol rhwng ei Gynllun Corfforaethol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac nid oes cynlluniau arbedion dangosol ganddo ar gyfer blynyddoedd i ddod na dull strategol o gynhyrchu incwm 10

Cynllun Arbedion 2016-17

Mae'r Cyngor yn rhagweld y caiff 83% o'i gynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17 ei gyflawni ond nid oes digon o fanylion mewn rhai cynlluniau arbedion nac amserlenni cyflawni realistig 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae systemau rheoli ariannol da yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon yn barhaus. Oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol a'r setliadau is i lywodraeth leol mae gwaith cynllunio ariannol da, ynghyd â chynlluniau arbedion tra ystyriol, yn hanfodol er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol.

2 Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar ateb y cwestiwn canlynol: **A yw trefniadau cynllunio arbedion ariannol y cyngor yn cefnogi cydnerthedd ariannol?**

3 Mae gwaith cynllunio ariannol da:

- yn helpu cynghorau i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor;
- yn helpu cynghorau i ddarparu gwasanaethau i gyflawni rhwymedigaethau statudol a diwallu anghenion cymunedau lleol;
- yn hanfodol er mwyn sicrhau systemau llywodraethu corfforaethol da;
- yn ymwneud cymaint â rheoli perfformiad a chyflawni amcanion strategol ag â rheoli arian;
- yn sail i ansawdd gwasanaethau a gwella gwasanaethau;
- yn sail i atebolrwydd i randdeiliaid am warchod a defnyddio adnoddau; a
- yn ddisgyblaeth reoli allweddol.

4 Mae gwaith cynllunio ariannol ar gyfer y tymor canolig i'r hirdymor yn cynnwys deall y galw yn y dyfodol, asesu effaith newidiadau tebygol, adolygu'r bylchau rhwng anghenion ariannu ac incwm posibl a, lle y bo angen, ddatblygu strategaethau arbedion priodol.

5 Dylai blaenoriaethau strategol cyngor a'i iechyd ariannol fod yn sail ar gyfer penderfynu beth sy'n ymarferol. Gall strategaethau ariannol hirdymor a chynlluniau ariannol tymor canolig tra ystyriol a manwl sicrhau y caiff blaenoriaethau strategol eu cyflawni drwy alluogi awdurdod i wneud dewisiadau ariannol priodol. I'r gwrthwyneb, mae gwaith cynllunio cyllidebol blynyddol byrdymor yn annog awdurdodau i fabwysiadu dull gweithredu cynyddrannol a lywir gan brosesau sy'n rhy anhyblyg mewn cyfnod o newid allanol cyflym.

6 Caiff cynghorau tua 80% o'u hincwm net oddi wrth Lywodraeth Cymru, dim ond 4-5 mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y daw'r union ffigur yn hysbys. Er bod hyn yn effeithio ar waith cynllunio ariannol, gall cynghorau ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth i ragweld amgylchiadau sy'n newid, pennu blaenoriaethau, gwneud dewisiadau a rheoli'r modd y darperir gwasanaethau. Gallant gyfrifo faint o arian y byddai ei angen arnynt er mwyn darparu gwasanaethau (yn ôl prisiau cyfredol neu brisiau yn y dyfodol) ac ystyried senarios amgen o ran incwm a gwariant er mwyn nodi bylchau a pharatoi ar gyfer y dyfodol drwy ymchwilio i ddulliau gweithredu gwahanol.

7 Yn ystod 2015-16 cyflawnodd Swyddfa Archwilio Cymru waith ym mhob cyngor er mwyn asesu digonolrwydd ei drefniadau cynllunio ariannol, rheolaeth ariannol a llywodraethu ariannol. Cyflwynwyd adroddiadau lleol a chyhoeddwyd adroddiad cryno cenedlaethol ym mis Awst 2016. Daeth yr adroddiad cryno cenedlaethol i'r casgliad bod **awdurdodau lleol yn gwella eu trefniadau cynllunio strategol ond yn cael anhawster yn datblygu a darparu'r arbedion a'r newidiadau i wasanaethau ar y cyflymder sy'n ofynnol i sicrhau cydnerthedd ariannol yn y dyfodol.**

8 Yn yr asesiad hwn, a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin a mis Medi 2016, rydym wedi canolbwyntio ar waith i nodi arbedion, cynllunio ar eu cyfer a'u cyflawni. Ystyriwyd i ba raddau y cyflawnodd Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ei gynlluniau arbedion ar gyfer 2015-16, ansawdd ei gynlluniau ariannol tymor canolig a chadernid ei gynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17.

9 Ystyriwyd tri chynnig ar gyfer gwneud arbedion yn 2016-17 ac ystyriwyd y tybiaethau sy'n sail iddynt, ac a oes systemau digonol i sicrhau y gellir eu cyflawni yn unol â'r amserlen arfaethedig.

10 Yn dilyn y gwaith a wnaed yn 2015-16 aethom ati i nodi'r hyn a wnaeth y Cyngor o ganlyniad i'r hyn a ddysgodd a sut y mae wedi ymateb i'n cynigion ar gyfer gwella mewn perthynas â chynllunio ariannol os gwnaethom unrhyw rai.

11 Yn yr adroddiad hwn rydym wedi disgrifio rhai o nodweddion allweddol cynllunio ariannol effeithiol – Nodweddion cynllunio ariannol da. Mae archwilwyr wedi defnyddio'r rhain a ffactorau eraill i lunio barn gytbwys ar effeithiolrwydd trefniadau cynllunio ariannol cyngor a gwerthuso gallu cyngor i gyflawni ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig a'i arbedion arfaethedig.

12 Yn ein hadolygiad yn 2015-16 daethom i'r casgliad, **er bod y Cyngor yn wynebu rhai heriau sylweddol, bod ei drefniadau presennol ar gyfer cyflawni cydnerthedd ariannol yn briodol ac yn parhau i wella.**

13 Yn yr adolygiad hwn daethom i'r casgliad, **er bod gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol sy'n gwella, y ceir cynlluniau arbedion sydd heb ddatblygu digon, a'i bod yn bosibl na fyddant yn cefnogi cydnerthedd ariannol yn llawn yn y dyfodol.**

14 Ceir **rhywfaint o newid cadarnhaol** yn y sefyllfa ers 2015-16. Mae'r Cyngor wedi parhau i atgyfnerthu ei drefniadau ariannol. Mae wedi adolygu a chyhoeddi cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi ac wedi diweddaru ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig. Er mwyn cau'r bwlch mewn arbedion yn y dyfodol, mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen newid ei ddull gweithredu strategol mewn perthynas â chynllunio ariannol ac adolygu ei ddull gweithredu mewn perthynas â ffioedd a thaliadau.

# Cynigion ar gyfer gwella

## Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Byddai'n anarferol pe na baem yn dod o hyd i bethau y gellir eu gwella ac, os byddwn yn gwneud hynny, gall yr Archwilydd Cyffredinol gymryd nifer o gamau. Yn yr achos hwn mae cynnig ar gyfer gwella wedi'i wneud a byddem yn disgwyl i'r Cyngor wneud rhywbeth yn ei gylch.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Atgyfnerthu'r trefniadau cynllunio ariannol drwy wneud y canlynol:<br>• datblygu Polisi Cynhyrchu Incwm/Codi Tâl;<br>• datblygu cynlluniau arbedion dangosol i gwmpasu cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig;<br>• ymgorffori gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• gwella'r cysylltiadau rhwng ei Gynllun Corfforaethol a'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig; ac<br>• atgyfnerthu trefniadau ar gyfer monitro cynnydd arbedion nad ydynt wedi'u cyflawni yn y dyfodol. |

# Adroddiad manwl

## Er bod gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol sy'n gwella, ceir cynlluniau arbedion sydd heb ddatblygu digon, ac mae'n bosibl na fyddant yn cefnogi cydnerthedd ariannol yn llawn yn y dyfodol

### Cyd-destun

15 Ers 2010, mae Llywodraeth y DU wedi lleihau ei gwariant ar wasanaethau cyhoeddus fel rhan o'i chynllun i leihau'r diffyg. Yn sgil y toriadau i'w chyllideb, bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud dewisiadau anodd o ran sut i ddosbarthu'r toriadau ariannol hynny rhwng y gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. O ganlyniad, mae'r cyllid craidd y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i gynghorau lleol wedi gostwng bob blwyddyn. Hyd yma, mae'r rhan fwyaf o gynghorau lleol wedi llwyddo i leihau eu gwariant a mantoli eu cyllidebau, ond mae'r gostyngiadau blynyddol yn debygol o barhau ar yr un lefel. Dengys ein dadansoddiad, rhwng 2013-14 a 2016-17, fod gostyngiad o £483 miliwn (10.9%) wedi bod yn y cyllid craidd hwn mewn termau real[1].

16 Mae'n bosibl y bydd effaith y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd yn fygythiad i gynghorau lleol a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Yn syth ar ôl y penderfyniad cafwyd ymateb yn y marchnadoedd ariannol a arweiniodd at anwadalrwydd, er enghraifft, ym mhrisiau cyfranddaliadau, cyfraddau cyfnewid arian cyfred, prisiau olew ac arenillion bondiau, ac mae'r DU yn parhau i wynebu cryn dipyn o ansicrwydd yn ogystal â chwestiynau pwysig am gydberthnasau economaidd a masnachol ag Ewrop yn y dyfodol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi mynegi pryderon ynghylch goblygiadau canlyniad refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, gan ei alw'n newid enfawr ym mholisi cyhoeddus y DU[2] yn enwedig am mai cynghorau lleol gyda'i gilydd yw'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru ac am eu bod darparu llawer o wasanaethau cyhoeddus pwysig.

[1] Mae cymharu cyllid craidd (Cyllid Allanol Cyfun) yn ystod y cyfnod rhwng 2013-14 a 2016-17 yn gymhleth am ddau brif reswm. Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgorffori grantiau a roddid ar wahân yn flaenorol mewn cyllid craidd. Er bod y broses hon o 'ddadneilltuo' grantiau yn arwain at gynnydd mewn cyllid craidd, nid yw o reidrwydd yn gynnydd net mewn cyllid. Mae gwerth net grantiau a ymgorfforwyd mewn cyllid craidd ers 2013-14 tua £76 miliwn mewn termau real (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant).


[2] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, **Pryder am effaith y refferendwm ar wasanaethau**, 24 Mehefin 2016

17 Er bod yr arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru wedi gostwng yn gyffredinol, bu disgwyl i gynghorau ddiogelu ysgolion a gofal cymdeithasol rhag y rhan fwyaf o'r pwysau. Mae gofal cymdeithasol yn arbennig wedi'i chael hi'n anodd hyd yn oed gyda'r diogelwch hwn am fod newidiadau demograffig wedi cynyddu'r galw am wasanaethau, er enghraifft. Fodd bynnag, golyga hyn mai gwasanaethau eraill sydd wedi wynebu'r rhan fwyaf o'r toriadau ac mae eu cyllidebau wedi gostwng 30% neu fwy mewn termau real ers 2013-14.

18 Cafodd y Cyngor gymorth ariannol gwerth £91.9 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn 2016-17. Mae hyn yn £1,310 y person yn y sir, y cyfartaledd ar gyfer Cymru ond gostyngiad mewn termau real o 10.97%[3] y pen ers 2013-14. Mae materion allweddol eraill sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol gyffredinol unrhyw gyngor, er enghraifft sylfaen gyffredinol y Dreth Gyngor, y gallu i gynhyrchu incwm yn lleol a'r lefelau amddifadedd.

Arddangosyn 2: Cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru yn 2016-17

Dengys y graff isod faint o arian y mae pob cyngor yn ei gael fesul pen o'r boblogaeth gan Lywodraeth Cymru.




Ffynhonnell: StatsCymru (www.statscymru.llyw.cymru)

[3] Mae'r ffigur ar gyfer y gostyngiad canrannol y pen yn amrywio o'r gostyngiad mewn cyllid craidd yn 2013-14 oherwydd yr amrywio yn y boblogaeth a welwyd yn ystod yr un cyfnod.

# Arbedion a gyflawnwyd yn 2015-16

## Nododd y Cyngor ei fod wedi cyflawni 82% o'r arbedion a gynlluniwyd ganddo ar gyfer 2015-16 yn ystod y flwyddyn a gall ddangos bod arbedion unigol wedi cael eu cyflawni

### Nodweddion cynllunio ariannol da

19 Dylai fod gan gynghorau sydd â hanes da o gyflawni'r rhan fwyaf o arbedion arfaethedig yn ystod y flwyddyn gynlluniau arbedion a chynlluniau cyflawni datblygedig ar waith a ategir gan brosesau monitro cadarn. Nid oes rhaid i'r cynghorau hyn gau'r bwlch yn barhaus o flwyddyn i flwyddyn, drwy nodi arbedion amgen, defnyddio cyllid untro heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, cronfeydd cyffredinol wrth gefn, cronfeydd wrth gefn nac incwm heb ei gynllunio damweiniol a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

### Yr hyn a nodwyd gennym

20 Yn ein hadolygiad yn 2015-16, nodwyd gennym fod y Cyngor wedi datblygu fframwaith corfforaethol priodol ar gyfer gwaith cynllunio ariannol, ond gallai wella'r cysylltiadau rhwng ei Gynllun Corfforaethol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

21 Yn ein hadolygiad yn 2016-17 nodwyd gennym fod y Cyngor wedi pennu cyllideb net o £124.6 miliwn ar gyfer 2015-16 a oedd yn cynnwys gofyniad i gyflawni cynigion a nodwyd ar gyfer gwneud arbedion o £4.33 miliwn. Cyflawnodd y Cyngor 82% o'i arbedion arfaethedig o fewn y flwyddyn. Sicrhaodd y Cyngor werth £4.3 miliwn o arbedion refeniw yn 2015-16 gan fod disgwyl i adrannau dalu am unrhyw arbedion nas cyflawnwyd drwy danwariant neu arbedion effeithlonrwydd amgen. Cafodd unrhyw arbedion nas cyflawnwyd eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol ganlynol ac ni chawsant eu hailgyflwyno i'r gyllideb. Fodd bynnag, ni wneir unrhyw waith penodol parhaus i fonitro arbedion nas cyflawnwyd yn y dyfodol.

22 Nodwyd atodlen o'r cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y ‘Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2015-16’. Yn erbyn pob maes arbedion unigol roedd disgrifiad byr o'r arbediad, cyfanswm gwerth yr arbediad arfaethedig a'r gwasanaeth yr oedd yn gysylltiedig ag ef. Ategwyd pob cynnig gan gynnig manylach a oedd wedi cael ei gadarnhau a'i herio gan y Tîm Cyllid. Cafodd yr arbedion arfaethedig eu hymgorffori yn y cyllidebau gwasanaeth unigol.

23 Sicrhaodd y Cyngor danwariant cyffredinol o £1.849 miliwn ar ei gyllideb refeniw ar gyfer 2015-16. Roedd hyn yn cynnwys tanwariant neu orwariant adrannau, darpariaethau wrth gefn nas defnyddiwyd ac eitemau untro eraill. Cafodd gwerth y tanwariant hwn ei wrthbwyso'n rhannol drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu taliadau diswyddo a throsglwyddo £476,000 i Wasanaethau Plant er mwyn helpu i ariannu lleoliadau statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Y cynnydd net mewn cronfeydd cyffredinol wrth gefn oedd £1.7 miliwn.

24 Cytunodd y Cyngor, fel rhan o'i strategaeth gyllidebol ar gyfer 2015-16, i ddefnyddio'r darpariaethau wrth gefn penodol canlynol: £190,000 ar gyfer gwella; £631,000 at ddibenion cyffredinol; £170,000 ar gyfer clwb brecwast; a £600,000 ar gyfer gwerthuso swyddi. Mae'r Cyngor yn defnyddio darpariaethau wrth gefn i ategu ei gynlluniau ariannol ac maent yn newid bob blwyddyn.

25 Yn ystod 2015-16 atgyfnerthwyd trefniadau ariannol drwy symud i ffwrdd o dargedau ar gyfer arbedion a bennir gan yr Adran Gyllid a thuag at broses fwy cynhwysol gyda'r gwasanaethau. Gwnaeth Panel Canlyniadau Craffu ystyried cynnydd y Cyngor yn fanylach o ran cyflawni ei dargedau ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn 2015-16. O ganlyniad i'r gwaith manwl hwn, gall paneli craffu ddefnyddio set glir o gwestiynau wrth drafod a herio'r cynnydd a'r arbedion a wnaed. Fodd bynnag, maent yn canolbwyntio mwy yn awr ar herio arbedion yn y dyfodol cyn iddynt gael eu gweithredu.

26 Roedd y newidiadau pellach a gyflwynwyd ar gyfer cylch cyllideb 2016-17 yn cynnwys mwy o herio mewnol mewn perthynas â llinellau cyllidebol, a gwneud hynny'n gynharach, a gwasanaethau yn cyflwyno cynigion ffurfiol ar gyfer gwneud arbedion effeithlonrwydd. Mae Swyddogion Adran 151 a'r Prif Weithredwr yn herio ac yn cefnogi gwasanaethau er mwyn asesu dichonoldeb arbedion arfaethedig a'r ffordd y cânt eu cyflawni yn well. Mae'r Uwch Dîm Arwain yn goruchwylio'r cynnydd yn erbyn y cynllun arbedion yn strategol a chaiff adroddiad ffurfiol ar y cynnydd ei gyflwyno i Aelodau'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Craffu bob chwarter.

# Trefniadau cynllunio ariannol

## Mae'r Cyngor yn parhau i atgyfnerthu ei fframwaith cynllunio ariannol ond nid oes digon o gysylltiadau rhwng ei Gynllun Corfforaethol a'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig ac nid oes ganddo gynlluniau arbedion dangosol ar gyfer y dyfodol na dull corfforaethol o gynhyrchu incwm

### Nodweddion cynllunio ariannol da

27 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn elfen allweddol o fframwaith cynllunio effeithiol ac integredig. Dylai gwaith cynllunio ariannol tymor canolig a gwaith cyllidebu blynyddol da adlewyrchu amcanion a blaenoriaethau strategol y cyngor ar gyfer y flwyddyn, ac yn y tymor hwy. Fel arfer mae Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig yn cwmpasu cyfnod o rhwng tair a phum mlynedd a dylent nodi sut y caiff adnoddau eu neilltuo i ddarparu gwasanaethau a chyflawni blaenoriaethau'r cyngor. Dylid ystyried yr effaith ar ddinasyddion a rhanddeiliaid eraill hefyd.

28 Mae Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig da yn cynnwys ystyriaeth o'r risgiau ariannol allweddol ynghyd â sut i'w lliniaru. Mae'n rhaid i gynghorau lunio

tybiaethau ynghylch chwyddiant, lefelau incwm, demograffeg, y galw am wasanaethau yn y dyfodol a chostau darparu gwasanaethau, ac mae angen seilio'r rhain ar ragfynegiadau rhesymol. Dylai'r cyngor hefyd ddefnyddio gwaith modelu ariannol i asesu'r effeithiau tebygol ar gynlluniau ariannol ac arbedion gofynnol ar gyfer amrywiaeth o wahanol senarios a risgiau. Dylai'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig gael ei adolygu'n aml a'i ddiweddaru er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran tybiaethau a risgiau.

29 Dylai cynghorau weithredu o fewn lefel o gronfeydd wrth gefn a balansau (gan gynnwys cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a balans y gronfa gyffredinol), a gymeradwywyd gan yr Aelodau, ac sy'n briodol i'r risgiau strategol, gweithredol ac ariannol y maent yn eu hwynebu. Dylai cynghorau gynnwys manylion am y ffordd y caiff cronfeydd wrth gefn eu defnyddio dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

30 Mae'n rhaid i'r Cyngor ddangos ei fod yn deall ei ffynonellau incwm a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hwy a'i fod wedi adolygu ei ymagwedd tuag at ffioedd a thaliadau, am ei wasanaethau, er mwyn sicrhau gwerth am arian.

## Yr hyn a nodwyd gennym

31 Yn ein hadolygiad yn 2015-16, nodwyd gennym fod y Cyngor wedi datblygu fframwaith corfforaethol priodol ar gyfer gwaith cynllunio ariannol, ond gallai wella'r cysylltiadau rhwng ei Gynllun Corfforaethol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

32 Yn ein hadolygiad yn 2016-17, nodwyd gennym fod y cysylltiadau rhwng Cynllun Corfforaethol a Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor wedi aros yn ddigyfnewid. Ceir diffyg cysylltiadau eglur rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig presennol a'r Cynlluniau Corfforaethol a'u nodau. Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym ei fod yn bwriadu atgyfnerthu'r cysylltiadau hyn fel rhan o'i brosesau cynllunio cyllidebol ar gyfer 2017-18 ac mae wedi nodi bod angen cysoni ei drefniadau ariannol â blaenoriaethau corfforaethol penodol.

33 Diweddarwyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ym mis Mawrth 2016 ar ôl iddo gael ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2015, a chyflwynwyd diweddariad pellach sy'n cwmpasu 2017-18 i 2019-20 i'r Pwyllgor Gweithredol ym mis Medi 2016. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig diweddaraf yn gynllun treigl tair blynedd a gaiff ei ddiweddaru'n flynyddol a'i adolygu'n rheolaidd.

34 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn tynnu sylw at bwysau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y gyllideb. Mae'n ystyried newidiadau hysbys ac yn nodi cyfres o dybiaethau rhesymol a phriodol gan gynnwys pwysau ar wasanaethau, twf gwasanaethau, ffactorau chwyddiant, newidiadau demograffig, costau cyflog a phensiwn a chyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig hefyd yn asesu gwariant, incwm a risgiau ariannol allweddol yn y dyfodol a chadernid amcangyfrifon.

35 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y cyfnod rhwng 2017-18 a 2019-20 yn rhagweld gofyniad arbedion o £8.13 miliwn. Mae hyn yn seiliedig ar y tybiaethau y bydd gwariant net yn cynyddu 2% y flwyddyn; y bydd y Dreth Gyngor yn cynyddu

4% y flwyddyn ac y bydd Cyllid Allanol Cyfun yn gostwng 2% yn 2017-18, 2.6% yn 2018-19 a 2.7% yn 2019-20.

36 Ar ôl i'r setliad dros dro gael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2016, mae'r Cyngor bellach yn rhagweld y bydd y bwlch cyllido ar gyfer 2017-19 yn £2.9 miliwn yn hytrach na £3.49 miliwn fel y nodwyd yn y fersiwn o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016. Mae'r Cyngor wedi nodi arbedion tebygol o £2.9 miliwn ar gyfer 2017-18 ac mae gwaith ymgynghori wrthi'n mynd rhagddo ar y cynigion hyn. Er bod y Cyngor yn dweud ei fod wedi dechrau nodi arbedion dangosol ar gyfer yr hyn sy'n weddill o gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, nid yw'r rhain wedi'u datblygu'n dda. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen newid ei strategaeth er mwyn parhau i gyflawni arbedion a rhoddir ystyriaeth i: fodelau cyflawni amgen, trosglwyddo darpariaeth gwasanaethau oddi wrth y Cyngor, defnyddio balansau cyffredinol i sicrhau arbedion yn y dyfodol a rhoi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau anstatudol.

37 Fel rhan o broses y gyllideb, gofynnwyd am wasanaethau i gynnal asesiadau cychwynnol o effaith pob cynnig ar gydraddoldeb. Cafodd brawddeg fer yn crynhoi'r effaith ei chynnwys yn y ddogfennaeth ar gyfer pennu'r gyllideb, ond nid oedd rhai asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb wedi cael eu cynnal pan gytunwyd ar y cynigion ar gyfer gwneud arbedion. Hefyd, nid yw effaith gronnus yr arbedion ar grwpiau penodol a ddiogelir wedi cael ei hystyried. Cafodd effaith ariannol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chamau lliniaru arfaethedig eu hystyried fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb.

38 Cafodd Polisi Cyffredinol cynhwysfawr ar Gronfeydd wrth Gefn a Balansau ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gweithredol ym mis Mawrth 2016 a phennwyd lefel ofynnol o £5 miliwn ar gyfer balansau cyffredinol yn 2016-17. Mae'r polisi yn gynhwysfawr ac yn nodi sut y caiff cronfeydd wrth gefn eu defnyddio a'u rheoli yn ogystal â nodi'r mathau o gronfeydd wrth gefn a mesur eu gofynion. Nid yw'r Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn adrannau unigol, ond mae ganddo 'Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol' y gall gwasanaethau gyflwyno cynigion iddi.

39 Cynhaliwyd adolygiad o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chafodd tua £30,000 ei ddychwelyd i gronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae £1 filiwn wedi cael ei rhyddhau o falansau cyffredinol i ariannu 'Cronfa Fuddsoddi' sy'n galluogi buddsoddiad mewn prosiectau unigol a fydd yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol.

40 Mae cyllideb 2016-17 yn cynnwys £1.8 miliwn fel y'i clustnodir a darpariaethau wrth gefn cyffredinol er mwyn ariannu ystod o brosiectau. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau i systemau TG, costau dileu swyddi posibl, costau gofal cartref penodol, swyddi a phrosiectau penodol a £310,000 fel darpariaeth wrth gefn gyffredinol i'w defnyddio i dalu unrhyw gostau nas rhagwelir sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

41 Mae £2.15 miliwn ychwanegol wedi cael ei glustnodi o gronfeydd wrth gefn cyffredinol er mwyn talu'r ymrwymiad cyflog cyfartal posibl. Mae'r Cyngor yn

bwriadu gwneud arbedion sylweddol yn ystod 2017-18 er mwyn mantoli'r gyllideb refeniw heb fod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol.

42 Er nad oes gan y Cyngor bolisi cyffredinol ar gynhyrchu incwm a chodi taliadau, mae'r gyllideb ar gyfer 2016-17 yn seiliedig ar sicrhau cynnydd cyffredinol o 5% yn yr holl ffioedd a thaliadau anstatudol. Cafodd yr atodlen o ffioedd a thaliadau ar gyfer 2016-17 ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Gweithredol ym mis Mawrth 2016 ac, am y tro cyntaf, cawsant eu cyflwyno mewn un atodlen gyfansawdd. Cafodd targed cynhyrchu incwm o £273,000 ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2016-17, sy'n cyfateb i 7.9% o'r arbedion cyffredinol sydd eu hangen, sef £3.4 miliwn.

43 O 2017-18 ymlaen bydd y cynnydd mewn incwm anstatudol yn cael ei gysoni â'r cynnydd a ragdybir yn y dreth gyngor. Mae diffyg dull corfforaethol o gynhyrchu incwm yn gwanhau'r trefniadau ariannol ac yn golygu y gellid colli cyfleoedd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi ein hysbysu y bydd yn ystyried datblygu polisi cynhyrchu incwm.

# Cynllun Arbedion 2016-17

## Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd 83% o'i gynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17 yn cael eu cyflawni ond nid yw rhai ohonynt yn cynnwys digon o fanylion nac amserlenni y gellir eu cyflawni

### Nodweddion cynllunio ariannol da

44 Mae gan gynghorau sy'n cyflawni arbedion yn effeithiol gynlluniau arbedion tra ystyriol sy'n rhan o strategaethau arbedion tymor hwy a ategir gan gynlluniau arbedion a chyflawni unigol datblygedig sydd wedi'u costio'n llawn ac sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Dylai cynigion ar gyfer gwneud arbedion fod yn rhai penodol a dylid cynnal asesiad risg ohonynt er mwyn nodi pa mor debygol ydyw y cânt eu cyflawni.

### Yr hyn a nodwyd gennym

45 Yn ein hadolygiad yn 2015-16, nodwyd gennym fod cynlluniau arbedion y flwyddyn gyfredol wedi cael eu datblygu a'u profi drwy broses herio drwyadl. Roedd y cynlluniau'n benodol ac yn fesuradwy ac roeddent yn cael eu rheoli'n effeithiol gyda Phanel Canlyniadau Craffu yn gyfrifol am fonitro cynnydd.

46 Yn ein hadolygiad yn 2016-17 nodwyd gennym fod y Cyngor wedi nodi cynigion cyllideb cychwynnol ar gyfer gwerth £3.913 miliwn o arbedion. Yn dilyn asesiad risg pellach o'r hyn a gyflawnwyd ac adolygiad o ddichonoldeb nododd y Cyngor gynlluniau arbedion gwerth £3.46 miliwn er mwyn bodloni'r gofyniad arbedion ar gyfer 2016-17. Roedd hyn yn cynnwys arbedion a gynhyrchwyd drwy ddiswyddiadau gwirfoddol a lleihau'r gyllideb ddirprwyedig ar gyfer ysgolion. Defnyddiwyd £400,000 o gyllid addysg ganolog i leihau effaith y lleihad yn y gyllideb i ysgolion ar gyfer 2016-17, gan olygu mai gwerth £3.06m o arbedion oedd eu hangen.

47 Mae'r Cyngor wedi rhannu'r arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2016-17 yn gategorïau Cynhyrchu, arbedion ail-dendro/caffael a Thrawsnewid Gwasanaethau.

48 Mae'r Cyngor yn cynnal dogfennaeth addas sy'n nodi'r cynnydd yn erbyn arbedion gan gynnwys asesiad risg parhaus o ba mor gyraeddadwy yw pob maes arbedion yn erbyn y categorïau canlynol: yr arbedion sy'n debygol o gael eu cyflawni; canlyniad ansicr; a'r diffyg tebygol mewn arbedion. Caiff mesurau lliniaru eu hystyried hefyd. Er bod cadernid a dichonoldeb cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn cael eu herio'n fewnol cyn cael eu cynnwys yn y gyllideb, nododd ein hadolygiad fod diffyg manylder mewn rhai cynlluniau arbedion effeithlonrwydd, er enghraifft, ynglŷn â'r effaith ar flaenoriaethau corfforaethol. Mae Uwch Dîm Arwain y Cyngor yn monitro cynnydd ei gynlluniau arbedion yn fewnol yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

49 Mae'r Cyngor yn gwneud gwaith ymgynghori ynghylch ei gyllideb flynyddol sy'n cynnwys arolygon ar-lein, sesiynau galw heibio gyda'r Arweinydd, grwpiau ffocws, sesiynau i randdeiliaid a seminarau i aelodau. Cynhaliwyd ymgynghoriad penodol gyda phobl o dan 25 oed. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y gyllideb a ddaw i law sy'n ymwneud â chynlluniau arbedion yn cael eu hystyried cyn i'r gyllideb gael ei chymeradwyo.

50 Mae cynllun y Cyngor yn benodol ac yn fesuradwy, gan roi disgrifiad byr o'r arbediad a'r swm penodol i'w gyflawni. Cafodd atodlen o'r cynllun arbedion ar gyfer 2016-17 ei chynnwys yn yr adroddiad ar gyfer pennu'r gyllideb flynyddol a'i heitemeiddio fesul llinell. Mae'r Cyngor yn monitro cynigion ar gyfer gwneud arbedion fesul llinell yn fewnol a chaiff adroddiad ar gynnydd ei gyflwyno'n rheolaidd i'r Uwch Dîm Arwain. Mae'r adroddiad chwarterol ar fonitro refeniw a gaiff ei ystyried gan y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn nodi'r tybiaethau o ran cyflawni arbedion cyllideb 2016-17 gan gynnwys sylwebaeth ar elfennau arbedion nad oes modd eu cyflawni o bosibl, neu'r rhai na chânt eu cyflawni o gwbl.

51 Mae adroddiad monitro refeniw'r Cyngor ar gyfer chwarter dau yn rhagweld gorwariant net o £660,000 ar ei gyllideb refeniw. Mae'r adroddiad hefyd yn rhagweld bod 83% o arbedion y Cyngor (yn seiliedig ar £3.06 miliwn) naill ai eisoes wedi cael eu cyflawni neu tybir bod modd eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn. Aseswyd na fydd modd cyflawni 16% o'r arbedion yn 2016-17, ond eu bod yn debygol o gael eu cyflawni yn 2017-18; ac na fydd gwerth £42,000 o arbedion yn cael eu cyflawni o gwbl yn y dyfodol oherwydd amgylchiadau'r farchnad a chynnydd o ran gofynion cyfreithiol.

52 Y tri chynnig i wneud arbedion yn 2016-17 a ystyriwyd gennym er mwyn profi'r tybiaethau sy'n sail iddynt ac a oes systemau digonol i sicrhau y gellir eu cyflawni yn unol â'r amserlen arfaethedig oedd:

- Casglu Gwastraff gan gynnwys casglu eitemau swmpus (£41,000 a £90,000)
- Clwb Brecwast (£171,000); a
- Thaliadau i'r Sector Gwirfoddol: Gwasanaeth Oedolion (£30,000).

53 Dangosodd yr adolygiad o gynigion yr adnoddau olrhain enghreifftiol ar gyfer gwneud arbedion fod cadernid yr achosion busnes yn amrywio ac, er bod y tybiaethau sy'n sail i'r costiadau yn rhesymol ar y cyfan, roedd yr amserlenni arfaethedig yn aml yn afrealistig. Er enghraifft, mewn un adnodd olrhain, roedd y Cyngor wedi gohirio arbediad o 2015-16 tan 2016-17 er mwyn cynnal ymgynghoriad mwy penodol gyda grwpiau yr effeithir arnynt ynghylch y taliadau arfaethedig, ac mewn un arall cafodd y ffaith bod hysbysiad ffurfiol o derfynu contractau wedi cael ei gyflwyno'n hwyr effaith andwyol ar y gwaith o gyflawni'r arbedion arfaethedig ar gyfer y flwyddyn gyfan.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru